Cymru Ifanc
Young Wales

Hydref 2018

This briefing is bilingual, click here for the English version.

Croeso i gylchlythyr Cymru Ifanc

Gwaith cyfranogi yw Cymru Ifanc wedi'i gynnal gan Blant yng Nghymru a'n sefydliadau partner, a chaiff ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

Bydd Cymru Ifanc yn sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed am faterion sy'n bwysig iddynt hwy, a bod y materion hyn yn cael eu clywed gan Lywodraeth Cymru'n arbennig.

Fesul mis byddwn yn dod â'r newyddion diweddaraf i chi, yn cynnwys diweddariadau am y gwaith sy'n cael ei wneud gan fforymau a grwpiau eraill ledled Cymru.

Os hoffech gyfrannu unrhyw beth, e-bostiwch info@childreninwales.org.uk.

Contents

1. Mae Cymru Ifanc yn recriwtio Aelodau newydd i'r Bwrdd Prosiect.
2. Aelodau'r Cynulliad yn pleidleisio i gyflwyno bil i ostwng yr oedran pleidleisio i 16
3. Comisiynydd Plant Cymru: Beth Nawr?
4. Grwp Ieuenctid y CU i gynnal Fforwm Ieuenctid cyn y Gynhadledd Rynglywodraethol ar Ymfudo
5. Gofynnwyd i Eurochild ymgynghori â phlant ynghylch adolygiad canol tymor gwaith Cyngor Ewrop

---

Mae Cymru Ifanc yn recriwtio Aelodau newydd i'r Bwrdd Prosiect.

Cyflwyniad gan Samuel, y Cadeirydd:
"Samuel ydw i, rydw i'n 16 oed ac rwy'n dod o Flaenau Gwent. Rydw i wedi bod ar y bwrdd ers iddo gael ei ffurfio gyntaf yn 2016, ac fe ges i fy mhenodi'n Gadeirydd ym mis Medi y flwyddyn honno. Fi hefyd yw Maer Ieuenctid Blaenau Gwent. Rydw i wrth fy modd yn gweithio ar y bwrdd, achos mae'n gyfle anhygoel i fynd ati i wella bywydau pobl ifanc ledled Cymru".

Dyma alwad i bob person ifanc 11-18 oed sy'n credu'n angerddol mewn Llais Ieuenctid; mae cyfle gwych ar gael i chi!
Yma ym Mwrdd Prosiect Cymru Ifanc bydden ni'n hoffi rhoi cyfle i chi ymuno â ni. Mae 6 lle NEWYDD ar gael ar y bwrdd. Os ydych chi'n teimlo y byddech chi'n addas i lenwi un ohonyn nhw, paratowch eich ffurflen gais a'i dychwelyd erbyn 12:00 ganol dydd ar **26 Tachwedd 2018.**

Mae bod yn aelod o'r bwrdd yn gyfle anhygoel i feithrin hyder ac ymwneud â gwaith sy'n cael effaith uniongyrchol ar fywydau Pobl Ifanc yma yng Nghymru.

Mae'r rôl yn cynnwys cynghori tîm Cymru Ifanc ynghylch sut mae datblygu, cyflwyno a chraffu ar eu rhaglenni gweithgaredd, cwrdd â Swyddogion Llywodraeth Cymru, ACau, ASau a ffigurau eraill allweddol fel y Comisiynydd Plant a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r bwrdd hefyd yn gyfle i gynllunio a chynnal cynadleddau a chyflwyno gweithdai i Bobl Ifanc ledled Cymru.

Byddwch chi'n ymrwymo i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd, sydd fel arfer yn cael eu cynnal ar ddydd Sadwrn neu yn ystod gwyliau'r ysgol, ac rydyn ni'n cwrdd o leiaf 6 gwaith yn ystod y flwyddyn! Ar hyn o bryd, rydyn ni'n cwrdd yng Nghaerdydd neu yn Sir Benfro - ond byddwn ni'n talu am eich holl gostau teithio.

Efallai bod y rôl yn swnio fel rhywbeth difrifol, ac mae hynny'n wir, ond mae digon o gyfle i gael hwyl a chwerthin ar hyd y ffordd. Bydd lle ar y bwrdd yn gyfle i chi ddatblygu profiad, atgofion a ffrindiau am oes.

Felly, os ydych chi'n hoffi swn y cyfle yma, rhowch wybod i ni.
Os bydd gennych chi unrhyw gwestiynau, cysylltwch â:

Lynne.Hill@childreninwales.org.uk

Rydw i'n edrych ymlaen at ddarllen eich ceisiadau,

Samuel - Cadeirydd Bwrdd Prosiect Cymru Ifanc.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Unwaith bydd yr holl geisiadau wedi dod i law ac mae'r dyddiad cau wedi mynd heibio, bydd yr holl geisiadau'n cael eu trafod gan y Bwrdd Prosiect Pobl Ifanc presennol, a bydd y rhai sy'n cael eu dewis ar gyfer cyfweliad yn cael gwahoddiad i ddod i gwrdd ag aelodau presennol y Bwrdd ar 8 Rhagfyr 2018.

Cliciwch yma i lawrlwytho ffurflen gais.

Aelodau'r Cynulliad yn pleidleisio i gyflwyno bil i ostwng yr oedran pleidleisio i 16

Mae Plant yng Nghymru yn croesawu'r newyddion bod aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi pleidleisio i ganiatáu cyflwyno Bil Senedd Cymru ac Etholiadau (Cymru), sy'n cynnig gostwng yr oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau'r Cynulliad i 16.

Bydd y Bil yn cynnig sawl newid i'r Cynulliad, gan gynnwys gostwng yr oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau'r Cynulliad i 16 a newid enw'r Cynulliad i Senedd Cymru.

Gostwng gostwng yr oedran pleidleisio ynghyd â'r newidiadau eraill yw'r "cam cyntaf mewn rhaglen o ddiwygio ehangach i wneud ein senedd yn ddeddfwrfa fwy effeithiol, hygyrch ac amrywiol sy'n adlewyrchu'n llawn y cymunedau a'r bobl yr ydym yn eu gwasanaethu", meddai Elin Jones AC, Llywydd y Cynulliad.

Y bwriad yw i'r newidiadau arfaethedig fod yn eu lle erbyn 2021, ond mae'n rhaid i'r Bil fod yn destun gwaith craffu a phasio uwch-fwyafrif yn y Cynulliad, yn gyntaf.

I ddarllen rhagor am y newidiadau, gallwch fynd i wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Comisiynydd Plant Cymru: Beth Nawr?

Sally Holland yw Comisiynydd Plant Cymru. Ei swydd yw i warchod ac hyrwyddo hawliau a lles plant ac i siarad fyny dros blant a phobl ifanc Cymru. Er mwyn iddi fod yn bencampwraig effeithiol, mae angen iddi glywed wrth blant a phobl ifanc, a'r rheiny sy'n gweithio gyda nhw, am bynciau llosg ddylai gael eu cynnwys yng nghynllun gwaith y Comisiynydd.

Beth Nawr? | What now?

Dyma beth ry'n ni wedi galw'r arolwg, fydd yn hysbysu cynllun gwaith y Comisiynydd dros y dair blynedd nesa'. Drwy'r arolwg yma, ry'n ni'n galluogi lleisiau plant a phobl ifanc ddylanwadu ar yr hyn fydd y Comisiynydd Plant yn gwneud dros y blynyddoedd nesa'.

Mae'r arolwg yn fyw

Mae'r arolwg ar gael yma. Ar y dudalen hon fe welwch chi wahanol fersiynau o'r arolwg, gan gynnwys un i blant ifanc, plant ysgol uwchradd, rheini a gofalwyr ac i rheiny sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Ry' ni hefyd wedi creu fersiynau hygyrch o'r arolwg,, gan gynnwys fersiwn i blant a phobl ifanc byddar a rheiny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.
11 o Dachwedd 2018 yw'r dyddiad cau.

Angen mwy o wybodaeth?

Yma fe welwch chi gyfres o gwestiynau cyffredin am yr arolwg. Os nad yw ateb i gwestiwn penodol yn y ddogfen, yna peidiwch oedi cysylltu â ni ar post@complantcymru.org.uk neu drwy ffonio ein rhadffôn: 0808 801 1000

Diolch a phob lwc!

Grwp Ieuenctid y CU i gynnal Fforwm Ieuenctid cyn y Gynhadledd Rynglywodraethol ar Ymfudo

Mae Prif Grwp Plant a Ieuenctid y Cenhedloedd Unedig (UNMGCY) wedi trefnu Cynhadledd Ieuenctid ar 08 a 09 Rhagfyr yn Marrakech.

Bydd y fforwm yn tywys ymgysylltiad ieuenctid â'r Gynhadledd Rynglywodraethol ar Ymfudo (ICM) ar 10-11 Rhagfyr 2018, yn arbennig yng nghyswllt gweithredu, camau dilynol ac adolygu'r Compact Byd-eang ar Ymfudo (GCM).

Bydd y Fforwm ar agor i bawb o dan 30 oed sydd â diddordeb mewn ymfudo, materion rhyngwladol ac ymgysylltiad ieuenctid, a bydd yn rhoi i bobl ifanc y sgiliau a'r wybodaeth i fod yn rhan o'r ICM.

Prif ddiben yr ICM yw archwilio, trafod a mabwysiadu'r Compact Byd-eang ar Ymfudo, cytundeb byd-eang cyntaf erioed y CU ynghylch ffordd i wledydd gydweithio ar ymfudo rhyngwladol.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau i'r gynhadledd yw 02 Tachwedd. Nifer cyfyngedig o leoedd sydd ar gael, felly bydd yr ymgeiswyr yn cael eu dethol a'u hysbysu ar ôl 02 Tachwedd 2018.

Gallwch gyflwyno cais i'r gynhadledd yma, ac mae Cwestiynau Cyffredin ar gael ar wefan Prif Grwp Plant a Ieuenctid y CU.

Gofynnwyd i Eurochild ymgynghori â phlant ynghylch adolygiad canol tymor gwaith Cyngor Ewrop

Mae Eurochild wedi cael cais i ymgynghori â phlant ynghylch adolygiad canol tymor 2018-2019 o Strategaeth Hawliau Plant Cyngor Ewrop.

Mae'r meysydd thematig yn cynnwys gwrthweithio trais, cyfiawnder sy'n rhoi ystyriaeth i blant, cyfle cyfartal, hawliau plant yn yr amgylchedd digidol a chyfranogiad plant.

Bydd canlyniadau'r adolygiad yn cael eu hadrodd mewn cynhadledd lefel uchel ym Mharis ym mis Mehefin 2019, ac yn dilyn cyfranogiad llwyddiannus yn y gynhadledd i lansio Strategaeth Hawliau Plant Cyngor Ewrop yn Sofia, bydd plant yn cael gwahoddiad i gyfranogi ym Mharis.

Mae Eurochild hefyd wedi cynhyrchu pecyn offer eiriolaeth i hybu cyfranogiad plant, gyda chefnogaeth gan Gyngor Ewrop.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Eurochild.

Cymru Ifanc
Young Wales

October 2018

Welcome to the Young Wales newsletter

Young Wales is the participation work that is being run by Children in Wales and our partner organisations, and is funded by the Welsh Government.

Young Wales will ensure that children and young people are heard on issues that are important to them, and in particular that these issues are heard by the Welsh Government.

Each month we will bring you the latest news, including updates on the work that is being done by forums and other groups across Wales.

If you have anything you'd like to contribute, please email info@childreninwales.org.uk.

Contents

1. Young Wales are recruiting new Project Board Members
2. Assembly Members vote to introduce bill lowering voting age to 16
3. Children's Commissioner for Wales: What Now?
4. UN Youth Group to hold Youth Forum ahead of Intergovernmental Conference on Migration
5. Eurochild has been asked to consult children on the mid-term review of the work of the Council of Europe

Young Wales are recruiting new Project Board Members

Introduction From Samuel, Chairperson:

"I'm Samuel, I'm 16 and I'm from Blaenau Gwent. I have been on the board since it was first formed in 2016 and I was appointed Chair in the September of that year. I'm also Youth Mayor of Blaenau Gwent. I really enjoy working on the board as it is an amazing opportunity to work to improve the lives of young people all over Wales".

Calling all young people aged 11 to 18 who are passionate about Youth Voice, we have a fabulous opportunity for you!

Here at the Young Wales Project Board we would like to offer you the chance to come and join us. There are six NEW places for the taking on the board. If you feel you are suitable to fill one of these places, then please complete and return your application by 12:00 noon on the **26th of November 2018.**

Being on the board is an amazing opportunity to build confidence and to engage in work that directly affects the lives of Young People here in Wales.

The role involves advising the Young Wales team to develop, deliver and scrutinise their programmes of activities, meeting with Welsh Government Officials, AM's, MP's and other key figures such as the Children's Commissioner and Future Generations Commissioner.

The board also provides a chance to plan and run conferences and to deliver workshops to Young People all over Wales.

The commitment is to attend Board meetings that are usually held on a Saturday or during school holidays, and we meet at least six times throughout the year! We currently meet in either Cardiff or Pembrokeshire - but all travelling costs will be covered.

The role may sound serious and it is, but also allows for plenty of fun and laughter along the way. A place on the board allows you to gain experience, memories and friends for life.

So, if you like the sound of this opportunity, please let us know.
If you have any questions, please contact:

Lynne.Hill@childreninwales.org.uk

I look forward to reading your applications,

Samuel - Chair of the Young Wales Project Board.

What will happen next?

One all the applications have been received and the closing date has passed, all the applications will be discussed by the existing Young People's Project board, and those selected for interview will be invited to come and meet the existing Board members on December 8th 2018.

Assembly Members vote to introduce bill lowering voting age to 16

Children in Wales welcomes the news that members of the National Assembly for

Wales have voted to allow the introduction of the Welsh Parliament and Elections (Wales) Bill, which proposes to lower the voting age for Assembly elections to 16.

The Bill will propose several changes to the Assembly, including lowering the voting age for Assembly elections to 16 and change the name of the Assembly to Welsh Parliament.

Lowering the voting age along with the other changes, is "the first step in a programme of wider reform to make our parliament a more effective, accessible and diverse legislature that fully reflects the communities and people that we serve", say Elin Jones AM, Lywydd of the Assembly.

The intention is for the proposed changes to be in place by 2021, but the Bill have to be scrutinised and pass a super majority in the Assembly, first.

To read more about the changes, you can visit the National Assembly for Wales website.

Children's Commissioner for Wales: What Now

Sally Holland is the Children's Commissioner for Wales. Her role is to protect and promote the rights and welfare of children and to be the voice of children and young people in Wales. To do this effectively, she needs to know from children and young people, as well as those who work with them, what key areas of work she should focus on.

What Now? | Beth Nawr?
This is what we're calling the survey, **which will inform the Commissioner's 3 year plan**. This means that the voices of children and young people will directly affect the work carried out by the Children's Commissioner for Wales over the next few years.

Our survey is live now.

We want as many children and young people, adults, parents, carers, and professionals as possible to complete the survey. Please help them to share their views with us by encouraging them to complete the survey.

Where do I find it?

The survey can be found here. You will find many versions of the survey, including versions for younger children, adults and professionals. You will also find a link to our accessible surveys for deaf children and young people or those with additional learning needs.

What will happen with the information?

After the survey closes on 11 November 2018, we'll collate the information and let you know the results in early 2019.

Need more information?

Here you'll find a series of frequently asked questions about the survey. If you cannot spot an answer to your question on here, please do contact us on post@childcomwales.org.uk or using our Freephone number: 0808 801 1000

Thank you and good luck!

UN Youth Group to hold Youth Forum ahead of Intergovernmental Conference on Migration

The United Nations Major Group for Children and Youth (UNMGCY) has organised a Youth Conference on 08 and 09 December in Marrakech.

The forum will guide youth engagement with the Intergovernmental Conference on Migration (ICM) on 10-11 December 2018, especially around the implementation, follow-up, and review of the Global Compact for Migration (GCM).

Open to all under thirty with interests in migration, international affairs and youth engagement, the Forum will provide young people with the skills and knowledge to participate in the ICM.

The main purpose of the ICM is to examine, discuss and adopt the Global Compact on Migration, the first ever UN global agreement on a way for countries to work together on international migration.

The deadline for applications to the conference is 02 November. Spaces are limited, so applicants will be selected and informed after 02 November 2018.

You can apply to the conference here, and an FAQ can be found on the website of the UN Major Group for Children and Youth.

Eurochild has been asked to consult children on the mid-term review of the work of the Council of Europe

Eurochild has been asked to consult with children on the 2018-2019 mid-term review on the Council of Europe's Strategy for Children's Rights.
The thematic areas include combating violence, child-friendly justice, equal opportunities, children's rights in the digital environment and child participation.

The results of the review will be reported to a high-level conference in June 2019 in Paris, and following successful participation in the conference launching the Council of Europe Strategy for Children's Rights in Sofia, children will be invited to participate in Paris.

Eurochild has also produced an advocacy toolkit to promote children's participation with support from Council of Europe.

You can find out more information on the Eurochild website.

Young Wales - Cymru Ifanc | info@childreninwales.org.uk | 029 2034 2434 |

Dewiswch yr wybodaeth rydych yn dymuno ei derbyn

I newid eich dewisiadau ac i ddweud wrthym ni pa negeseuon e-bost rydych yn dymuno eu derbyn**,** cliciwch**'Diweddaru Proffil'** isod.

I atal pob e-bost oddi wrth Plant yng Nghymru, cliciwch '**Datdanysgrifio**'.

Byddwch yn Ymwybodol: Os **cliciwch Datdanysgrifio**, byddwch yn datdanysgrifio o holl wybodaeth a negeseuon e-bost marchnata Plant yng Nghymru.

Choose the information you want to receive

To change your preferences and tell us which emails you want to receive**,** click **'Update Profile'** below.

To stop all e-mails from Children in Wales, click '**Unsubscribe**'.

Please, Be Aware: If you **click unsubscribe**, you will be unsubscribing from all Children in Wales information and marketing emails.